# HEDDLUOEDD DE CYMRU A'R AIL RYFEL BYD

# RHESTR GWRONIAID

## 1939 1945




OEDI MYFYRIO COFIO

# CYDNABYDDIAETHAU

Wrth lunio'r Rhestr Gwroniaid hon rydym wedi bod yn ddiolchgar am gymorth yr unigolion a'r sefydliadau canlynol:

- Claire Jenkins-Robinson a ddarparodd luniau o swyddogion Heddlu Dinas Caerdydd
- Bernard Lewis am wybodaeth yn ymwneud â'r Gwarchodlu Cymreig yn 1940
- Archifau Morgannwg
- Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg
- Gwasanaethau Profedigaeth Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Rhondda Cynon Taf
- Uned Argraffu a Dylunio Heddlu De Cymru

# CYNNWYS

Cyflwyniad

Mynegai

Y Llynges Frenhinol a'r Llynges Fasnachol

Y Fyddin

Yr Awyrlu Brenhinol

Yr Heddlu

# CYFLWYNIAD

Yn dilyn ein prosiect Rhyfel Byd Cyntaf i gofio'r swyddogion heddlu hynny o'r heddluoedd a'n rhagflaenodd a fu farw yn y rhyfel hwnnw, rydym wedi cychwyn ar waith tebyg mewn perthynas â'r Ail Ryfel Byd.

Y llyfryn hwn yw canlyniad y gwaith ymchwil hwnnw. Mae'n cynnwys manylion cryno am y rheiny y mae eu henwau'n ymddangos ar gofebion ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, Gorsaf yr Heddlu Bae Caerdydd a Gorsaf Heddlu Canol Abertawe, ynghyd ag eraill a gollodd eu bywydau.

Wrth gwblhau'r gwaith ymchwil, daeth gwahaniaethau rhwng y ddau ryfel byd i'r amlwg:

- Collodd 93 o swyddogion o Gwnstabliaeth Morgannwg, Heddlu Dinas Caerdydd, Heddlu Bwrdeistref Abertawe a Heddlu Bwrdeistref Merthyr Tudful eu bywydau o ganlyniad i wasanaethu yn y lluoedd arfog yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y nifer llawer is yn yr Ail Ryfel Byd: 43 o Forgannwg, Caerdydd ac Abertawe.
- Roedd y rheiny a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn swyddogion yr heddlu rheolaidd, ond yn yr Ail Ryfel Byd roedd cymysgedd o swyddogion rheolaidd, cwnstabliaid rhyfel wrth gefn, cwnstabliaid gwirfoddol a staff sifil.
- Bu farw bron i bob un o'r rheiny yn y rhyfel byd cyntaf o ganlyniad i wasanaethu yn y fyddin. Yn yr Ail Ryfel Byd rhannwyd y colledion ar draws y Llynges Frenhinol a'r Llynges Fasnachol (3), y Fyddin (15) a'r Awyrlu Brenhinol (25). Roedd nifer mawr y marwolaethau ymysg yr Awyrlu Brenhinol yn adlewyrchu pwysigrwydd y rhyfel yn yr awyr, yn arbennig mewn perthynas a'r ymgyrchoedd bomio yn erbyn y gelyn. Yn wir, bu farw 16 o'r 25 tra'n gwasanaethu gyda'r Rheolaeth Awyrennau Bomio.
- Mae hefyd gwahaniaethau daearyddol rhwng y rhyfeloedd. Bu farw'r rhan fwyaf o'r rheiny yn y Rhyfel Byd Cyntaf o ganlyniad i wasanaethu yn Ffrainc a Gwlad Belg. Mae'r rhai o'r Ail Ryfel Byd wedi'u claddu mewn beddau ac wedi'u coffáu ar gofebion ledled y byd: yn ogystal â'r Deyrnas Unedig gellir eu canfod yng Ngwlad Belg, Canada, Ffrainc, Yr Almaen, yr Eidal, Malta, Maleisia, Myanmar (Burma), Yr Iseldiroedd, Y Swistir, Yr Unol Daleithiau a Thiwnisia.

- Yn olaf, mewn perthynas â'r gwahaniaethau hyn mae un sy'n arbennig o bwysig, sef, er y bu rhai cyrchoedd awyr gan y gelyn ar y Deyrnas Unedig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd eu hamlder yn ystod yr Ail Ryfel Byd ei adlewyrchu yn y miloedd o bobl gyffredin a gollodd eu bywydau ac a gafodd eu hanafu yn ystod y dinistr mewn llefydd fel Llundain, Cofentri a Plymouth. Dioddefodd De Cymru hefyd. Dioddefodd Caerdydd gyrchoedd trwm a gollyngwyd bomiau ar Gwmparc yn y Rhondda hefyd, gan achosi marwolaethau ac anafiadau. Dioddefodd Abertawe nifer o gyrchoedd, y mwyaf difrifol ohonynt ar nosweithiau'r 19eg, 20 fed, a'r 21ain Chwefror 1941 ('y Blitz Tair Noson'), lle lladdwyd neu anafwyd dros 600 o bobl a dinistriwyd canol y dref i bob pwrpas.

Chwaraeoedd swyddogion yr heddlu eu rhan yn llawn o ran yr amddiffyniad sifil. Lladdwyd dau swyddog ar ddyletswydd o Heddlu Bwrdeistref Abertawe yn ystod y bomio a bu farw tri o Heddlu Morgannwg: dau pan ollyngwyd bomiau ar Gwmparc ac un ym Mhenrhyn Gŵyr pan ffrwydrodd ffrwydryn morol. Yng Nghaerdydd, lladdwyd un swyddog ar ddyletswydd o ganlyniad i gyrchoedd awyr gan y gelyn. Bu farw dau swyddog arall ynghyd ag aelodau teuluol. Yn y Rhestr Gwroniaid hon, rydym wedi cofnodi pob un ohonynt ochr yn ochr â'r rhai a fu farw tra'n cwblhau eu gwasanaeth milwrol.

Gwnaethom grybwyll yn gynharach bod y llyfryn hwn yn cynnwys manylion cryno am y rhai rydym yn eu coffáu. Ein bwriad yw llunio llyfryn pellach maes o law sydd yn adrodd y storïau unigol mewn mwy o fanylder. Yn y cyfamser, gobeithio y bydd y Rhestr Gwroniaid hon yn deyrnged teilwng i'r rhai a fu farw. Ni chânt eu hanghofio.

**Gareth Madge**

**Jake McDonald**

**Canolfan Treftadaeth Heddlu De Cymru**



*Dadorchuddio Cofeb Rhyfel Heddlu Morgannwg ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda'r plac efydd wedi'i ychwanegu ato er cof am y rhai a fu farw yn ystod yr Ail Ryfel Byd (Llun: Casgliad Heddlu De Cymru/Archifau Morgannwg)*




*Y Goflech yng Ngorsaf Heddlu Bae Caerdydd (Llun: Heddlu De Cymru)*




*Y Ffenestr Goffa yng Ngorsaf Ganolog Abertawe*

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945


## Y LLYNGES FRENHINOL A'R LLYNGES FASNACHOL

BLOWER, JOHN KENNETH (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 11

BOWEN, EVAN DAVID (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 11

WILLIAMS, LEONARD LLOYD (HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE) 11

## Y FYDDIN

BANKS, VICTOR (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 12

COSWAY, ARTHUR WILLIAM (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 12

DAVIES, DAVID GLANVILLE (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 12

ENGLAND, WALTER BERNARD (HEDDLU DINAS CAERDYDD) 12

EVANS, GWILYM (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 13

GREEN, WILLIAM GEORGE (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 13

GRIFFITHS, THOMAS GEORGE (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 13

JONES, WILLIAM VINCENT (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 13

MEECHEM, REGINALD ALFRED WILLIAM (HEDDLU DINAS CAERDYDD) 14

MELHUISH, SIDNEY CHARLES (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 14

RHYS-WILLIAMS, GLYN DAVID (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 14

STENNER, GODFREY HOWARD (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 14

THOMAS, DANIEL LLOYD GEORGE (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 15

WENT, ALFRED JOHN (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 15

WILLIAMS, SAMUEL WYNDHAM (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 15

## YR AWYRLU BRENHINOL

BEECHEY, WALTER RONALD (HEDDLU DINAS CAERDYDD) 16

BENNETT, HERBERT SIDNEY (HEDDLU DINAS CAERDYDD) 16

BOWRAN, ROBERT BERNARD (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 16

CARPENTER, JAMES CLEMENT (HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE) 16

COOKE, TREFOR NICHOLAS (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 17

DAVID, WILLIAM THOMAS (HEDDLU DINAS CAERDYDD) 17

EVANS, ALBERT JOHN (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 17

GRAY, MYRDDIN (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 17

HASTINGS, JAMES (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) 18

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

HILL, JOSEPH HUBERT (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **18**

HOPKINS, DANIEL (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **18**

HOWELL, JOHN HENRY (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **19**

HUGHES, WILLIAM ARCHIE (HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE) **19**

HYATT, VINCENT LONGMEAD (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **19**

JOHNS, DAVID LEWIS (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **20**

JOHNSON, CHARLES ALFRED (HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE) **20**

JONES, DERRICK ISAAC (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **20**

KINGLAKE, RHYS NOEL (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **21**

LAING, THOMAS CHARLES (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **21**

MORGAN, WALTER HENRY (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **21**

PRIDMORE, WILLIAM THOMAS GEORGE (HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE) **22**

ROBERTS, EVAN EPHRAIM EDWARD (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **22**

SAYCE, STANLEY WALTER (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **22**

THORNE, CHRISTOPHER JAMES (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **23**

YOUNG, WILLIAM (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **23**

## YR HEDDLU

BEYNON, JOHN (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **24**

DAVIES, WILLIAM GEORGE (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **24**

DAVIS, HARRY (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **24**

FLITTER, WILLIAM BOLTON (HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE) **24**

HIGGS, CLIFFORD STANLEY (CWNSTABLIAETH MORGANNWG) **25**

INGLIS, EDGAR GEORGE (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **25**

JENKS, JACK HAROLD (HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE) **25**

SALISBURY, IVOR JAMES SCOTT (HEDDLU DINAS CAERDYDD) **25**

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## Y LLYNGES FRENHINOL A'R LLYNGES FASNACHOL



### BLOWER, JOHN KENNETH

CWNSTABL RHYFEL WRTH GEFN, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
MORWR CYMWYS, SS BRADFYNE, Y LLYNGES FASNACHOL

Ganwyd 1 Ionawr 1908 • Bu farw 22 Tachwedd 1940
Bu farw pan gafodd ei long ei suddo gan gwch tanfor Almaenig oddi ar arfordir gogledd orllewin Iwerddon.
Wedi'i goffáu ar Gofeb y Llynges Fasnachol, Tower Hill, Llundain.
*(Llun: Ancestry)*



### BOWEN, EVAN DAVID

AROLYGYDD GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
MORWR CYMWYS D/JX 288424, HMS MAHRATTA, Y LLYNGES FRENHINOL

Ganwyd 5 Mawrth 1906 • Bu farw 25 Chwefror 1944
Bu farw pan gafodd ei long ei suddo gan gwch tanfor Almaenig oddi ar arfordir Norwy.
Wedi'i goffáu ar y Gofeb Llyngesol, Plymouth.



### WILLIAMS, LEONARD LLOYD

CLERC CADÉT, HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE
CODIWR D/JX 356703, HMS CHARYBDIS, Y LLYNGES FRENHINOL

Ganwyd 3 Tachwedd 1923 • Bu farw 23 Hydref 1943
Bu farw pan gafodd ei long ei suddo gan gychod torpedo Almaenig oddi ar arfordir gogleddol Llydaw.
Wedi'i goffáu ar y Gofeb Llyngesol, Plymouth.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## Y FYDDIN



### BANKS, VICTOR

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
MARCHFILWR 7919614, HWSARIAID Y BRENIN 14/20,
Y CORFFLU ARFOG BRENHINOL

Ganwyd 20 Mai 1915 • Bu farw 17 Ebrill 1945
Bu farw o'r anafiadau a gafodd yn ystod Brwydr Medicina, yr Eidal.
Wedi'i gladdu yn y Fynwent Rhyfel yn Faenza, yr Eidal.



### COSWAY, ARTHUR WILLIAM

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
IS-GORPRAL 5668045, 7FED BATALIWN, SWYDD RHYDYCHEN
A SWYDD BUCKINGHAM, Y MILWYR TRAED YSGAFN

Ganwyd 20 Tachwedd 1910 • Bu farw 30 Hydref 1943
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn ystod yr ymgyrch Eidalaidd.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Minturno, yr Eidal.



### DAVIES, DAVID GLANVILLE

CWNSTABL 314, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
GYNNWR 14256775, CATRAWD MAES 110, Y MAGNELWYR BRENHINOL

Ganwyd 9 Hydref 1921 • Bu farw 21 Tachwedd 1944
Bu farw o'i anafiadau.
Wedi'i gladdu yn y Fynwent Rhyfel yn Mierlo, ger Eindhoven, yr Iseldiroedd.
*(Nodyn: Mae Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad yn cofnodi ei enw fel 'Glanville David'. Fodd bynnag, mae cofnodion yr heddlu wedi cofnodi ei enw fel 'David Glanville', fel y mae Cofrestr 1939). (Llun: Gwefan Find a Grave)*




### ENGLAND, WALTER BERNARD

CWNSTABL 28 A 44, HEDDLU DINAS CAERDYDD
IS-GORPRAL 14270708, CATRAWD 144,
(8FED BATALIWN, CATRAWD DWYRAIN CAERHIRFRYN),
Y CORFFLU ARFOG BRENHINOL

Ganwyd 24 Mai 1922 • Bu farw 17 Gorffennaf 1944
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn Noyers-Bocage yn ystod Brwydr Normandi.
Wedi'i goffáu ar Gofeb Bayeux, Normandi.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## Y FYDDIN




### EVANS, GWILYM

CWNSTABL 738, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
PREIFAT 14241612, Y GATRAWD GYMREIG, A COMMANDO RHIF 3

Ganwyd 1 Ionawr 1920 • Bu farw 14 Gorffennaf 1943
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn ystod y frwydr am Bont Malati, Sisili.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Catania, Sisily, ac wedi'i goffáu ar Gofeb y Commando, Coedardd y Gofeb Genedlaethol, Swydd Stafford.
*(Nodyn: Cafodd ei enw ei gamsillafu fel 'Gwilyn' gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad)*




### GREEN, WILLIAM GEORGE

CWNSTABL 459, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
IS-RINGYLL 814103, 2IL FATALIWN, Y GWARCHODLU CYMREIG

Ganwyd 21 Awst 1913 • Bu farw rhwng 23 a 24 Mai 1940
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn ystod amddiffyniad Boulogne.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Gymunedol St Martin-Boulogne, Ffrainc.




### GRIFFITHS, THOMAS GEORGE

CWNSTABL 475, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
RHINGYLL 2734026, BATALIWN HYFFORDDI, Y GWARCHODLU CYMREIG

Ganwyd 12 Rhagfyr 1914 • Bu farw 4 Gorffennaf 1944
Bu farw o ganlyniad i'r anafiadau a gafodd yn dilyn ymosodiad bomiau hedfan V1 ar Lundain ar 30 Mehefin 1944.
Wedi'i gladdu yn Christ Church, Esher, Surrey.




### JONES, WILLIAM VINCENT

CWNSTABL RHYFEL WRTH GEFN 57, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
IS-RINGYLL 2736700, BATALIWN 1AF, Y GWARCHODLU CYMREIG

Ganwyd 6 Tachwedd 1913 • Bu farw 4 Awst 1944
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn ystod Brwydr Normandi.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Bayeux, Normandi.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## Y FYDDIN



### MEECHEM, REGINALD ALFRED WILLIAM

CWNSTABL 3, HEDDLU DINAS CAERDYDD
GWARCHODLUWR 2733122, 2IL FATALIWN,
Y GWARCHODLU CYMREIG

Ganwyd 21 Ebrill 1912 • Bu farw 13 Mai 1940
Bu farw tra'n ymladd yn Hoek Van Holland.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Gyffredinol Hoek Van Holland, yr Iseldiroedd.




### MELHUISH, SIDNEY CHARLES

CWNSTABL 173, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
GWARCHODLUWR 2733579, Y GWARCHODLU CYMREIG

Ganwyd 27 Tachwedd 1912 • Bu farw 5 Mawrth 1941
Bu farw o ganlyniad i'r anafiadau a gafodd yn ystod cyrch awyr yr Almaen ar Gaerdydd ar 3 Mawrth 1941.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Cathays, Caerdydd.



### RHYS-WILLIAMS, GLYN DAVID

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
CAPTEN 180546, 3YDD BATALIWN, Y GWARCHODLU CYMREIG

Ganwyd 1 Tachwedd 1921 • Bu farw 9 Ebrill 1943
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn ystod y frwydr am Fwlch Fondouk yn Tiwnisia.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Enfidaville yn Twnisia.




### STENNER, GODFREY HOWARD

CWNSTABL 684, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
PREIFAT 14244322, 4YDD BATALIWN, CATRAWD BRENHINOL GORLLEWIN CAINT Y FRENHINES

Ganwyd 23 Tachwedd 1921 • Bu farw 9 Ebrill 1944
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn ystod Brwydyr Kohima, India.
Wedi'i goffáu ar Gofeb Rhyfel y Gymanwlad yn Rangoon, Myanmar (Burma).

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## Y FYDDIN



### THOMAS, DANIEL LLOYD GEORGE

RHINGYLL GWEITHREDOL 611, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
IS-GAPTEN 277847, 4YDD CATRAWD AROLYGU (DURHAM), Y MAGNELWYR BRENHINOL

Ganwyd 14 Rhagfyr 1909 • Bu farw 7 Hydref 1944
Bu farw o'r anafiadau a gafodd yn ystod ymosodiad awyr Almaenig ger Nijmegen, yr Iseldiroedd.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Jonkerbos yn Nijmegen.




### WENT, ALFRED JOHN

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
IS-GORPRAL 3969455, 4YDD BATALIWN, Y GATRAWD GYMREIG

Ganwyd 21 Chwefror 1916 • Bu farw 25 Gorffennaf 1944
Bu farw o'r anafiadau a gafodd yn ystod Brwydr Normandi.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Ryes, Bazenville, ger Bayeux.



### WILLIAMS, SAMUEL WYNDHAM

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
GYNNWR 1654871, CATRAWD 608 (Y GATRAWD GYMREIG), Y MAGNELWYR BRENHINOL

Ganwyd 6 Tachwedd 1908 • Bu farw 15 Ebrill 1945
Fe'i lladdwyd ar faes y gad yn ystod yr ymladd yn Dunkirk.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Pihen-les-Guines, ger Calais.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL



### BEECHEY, WALTER RONALD

CWNSTABL 74, HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG HEDFAN (PEILOT) 176445, SGWADRON 640,
RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 12 Ebrill 1919 • Bu farw 4 Tachwedd 1944
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr tra ar gyrch ar Bochum, ger Essen yn Nyffryn y Ruhr, yr Almaen.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Rheinberg, yr Almaen.
*(Llun: Claire Jenkins-Robinson)*



### BENNETT, HERBERT SIDNEY

CWNSTABL 11 AC 14, HEDDLU DINAS CAERDYDD
AWYR-RINGYLL (BOMIWR AWYR) 1339124, SGWADRON 550,
RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 19 Mai 1919 • Bu farw 2 Rhagfyr 1943
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr tra ar gyrch ar Berlin.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Hanover, yr Almaen.
*(Llun: Casgliad Heddlu De Cymru/Archifau Morgannwg)*




### BOWRAN, ROBERT BERNARD

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
SWYDDOG HEDFAN (PEILOT) 106138, SGWADRON 96,
RHEOLAETH AWYRENNAU YMLADD

Ganwyd 16 Ionawr 1915 • Bu farw 27 Mai 1942
Bu farw pan chwalodd yr awyren roedd yn ei hedfan fel peilot tra ar hediad hyfforddi yn Swydd Stafford.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Cannock Chase yn Swydd Stafford.




### CARPENTER, JAMES CLEMENT

CLERC CADÉT, HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE
RHINGYLL (GYNNWR AWYR) 1503460, SGWADRON 57,
RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 4 Mai 1921 • Bu farw 30 Gorffennaf 1943
Bu farw pan gafodd ei saethu i lawr tra ar gyrch ar Hamburg.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Hamburg.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL



### COOKE, TREFOR NICHOLAS

CWNSTABL 334, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
UWCH-AWYRLUYDDWR 1654472, YSGOL HYFFORDDIANT Y GWASANAETH HEDFAN RHIF 32

Ganwyd 26 Mehefin 1916 • Bu farw 18 Awst 1943
Bu farw pan wrthdarodd yr awyren yr oedd yn beilot arni ar hediad hyfforddi ag awyren arall a chwalu.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rosedale, Moose Jaw, Saskatchewan, Canada.




### DAVID, WILLIAM THOMAS

CWNSTABL 107, HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG HEDFAN (LLYWIWR) 155386, SGWADRON 204, RHEOLAETH ARFORDIROL

Ganwyd 9 Tachwedd 1917 • Bu farw 28 Awst 1944
Bu farw pan chwalodd ei awyren yn y môr oddi ar arfordir Gorllewin Affrica mewn tywydd gwael.
Wedi'i goffáu ar Gofeb Malta.



### EVANS, ALBERT JOHN

CWNSTABL 764, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
RHINGYLL (BOMIWR AWYR) 1422223, YSGOL BERFFEITHIO LANCASTER RHIF 5, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 20 Mehefin 1919 • Bu farw 12 Ionawr 1945
Bu farw pan chwalodd ei awyren yn Swydd Nottingham tra ar ymarfer hyfforddi hedfan yn ystod y nos. Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig iddo am ei weithredoedd yn ystod y cyrch bomio Almaenig ar Cwmparc ar 29 Ebrill 1941.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhydychen (Botley).
*(Llun: John Evans/Helen Nall)*




### GRAY, MYRDDIN

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
RHINGYLL (BOMIWR AWYR) 1499067, SGWADRON 77, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 24 Mawrth 1908 • Bu farw 14 Awst 1943
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr dros Ffrainc tra ar gyrch ar Milan.
Wedi'i gladdu yn y fynwent gymunedol yn Verneuil-sur-Avre, Ffrainc.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL

### HASTINGS, JAMES

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
RHINGYLL (GWEITHREDWR DI-WIFR/GYNNWR AWYR) 931419,
UNED HYFFORDDIANT TORPEDO, RHEOLAETH ARFORDIROL

Ganwyd 27 Medi 1909 • Bu farw 30 Gorffennaf 1941
Bu farw pan chwalodd ei awyren yn aber yr afon Clyde yn yr Alban tra ar hediad hyfforddi.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Pontypridd (Glyntaf).

### HILL, JOSEPH HUBERT

CWNSTABL RHYFEL WRTH GEFN, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
UWCH-AWYRLUYDDWR 960724, ASGELL 185

Ganwyd 22 Medi 1914 • Bu farw 8 Rhagfyr 1941
Bu farw o ganlyniad i'r anafiadau a gafodd yn ystod cyrch awyr Japaneaidd ar RAF Alor Star yn Malaia.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Taiping, Maleisia.



### HOPKINS, DANIEL

CWNSTABL 57, HEDDLU DINAS CAERDYDD
RHINGYLL (BOMIWR AWYR) 1317702, SGWADRON 101,
RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 22 Medi 1918 • Bu farw 4 Medi 1943
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr dros Berlin yn ystod cyrch ar y ddinas.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel 1939-45, Berlin.
*(Llun: Claire Jenkins-Robinson)*

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL



### HOWELL, JOHN HENRY

CWNSTABL RHYFEL WRTH GEFN, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
SWYDDOG HEDFAN 127614, UNED HYFFORDDIANT GWEITHREDOL RHIF 11, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 15 Mai 1910 • Bu farw 3 Mehefin 1943
Bu farw o lid yr ymennydd yn ysbyty'r Awyrlu Brenhinol yn Halton, ger Aylesbury, Swydd Buckingham.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Aberdâr.
*(Nodyn 1: Mae anghysondebau yn sillafiad y cyfenw mewn dogfennau amrywiol rhwng 'Howell' a 'Howells'. Fodd bynnag, mae Cofeb Ryfel Heddlu Morgannwg, ei dystysgrif marwolaeth a'i garreg bedd wedi'i gofnodi fel 'Howell').*
*(Nodyn 2: Mae Cofeb Ryfel Heddlu Morgannwg yn cofnodi ei uned fel Catrawd yr Awyrlu Brenhinol ond mae Adroddiad Cofrestriad Beddau, Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad yn ei gofnodi fel Uned Hyfforddiant Gweithredol Rhif 11, sef yr un a ffefrir yma).*



### HUGHES, WILLIAM ARCHIE

CLERC CADÉT, HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE
SWYDDOG HEDFAN (PEILOT) 170738, SGWADRON 251, RHEOLAETH ARFORDIROL

Ganwyd 1 Rhagfyr 1920 • Bu farw 17 Mawrth 1945
Bu farw pan aeth yr awyren yr oedd yn beilot arni ar goll tra ar batrol meteorologaidd dros Ogledd yr Iwerydd.
Wedi'i goffáu ar Gofeb y Llyoedd Awyr yn Runnymede, Surrey.




### HYATT, VINCENT LONGMEAD

CWNSTABL (DIFFODDWR TÂN), BRIGÂD TÂN HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG HEDFAN (BOMIWR AWYR) 132394, SGWADRON 102, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 19 Mawrth 1916 • Bu farw 3 Hydref 1943
Bu farw pan chwalodd ei awyren ger RAF Pocklington yn Swydd Efrog tra ar hediad hyfforddi traws-gwlad yn ystod y nos.
Wedi'i gladdu yn Eglwys St James, Bratton, yn Wiltshire.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL

### JOHNS, DAVID LEWIS

CWNSTABL 210, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
AWYR-RINGYLL (LLYWIWR) 1423534, SGWADRON 51,
RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 28 Mawrth 1919 • Bu farw 16 Ionawr 1945
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr tra ar gyrch ar ddinas Magdeburg yn yr Almaen.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Becklingen yng ngogledd yr Almaen.
*(Nodyn: Mae Cofeb Rhyfel Heddlu Morgannwg yn nodi ei gyfenw fel 'Johns' fel y mae cofnodion yr heddlu a chofnodion milwrol eraill. Mae ei dystysgrif geni, fodd bynnag, a chofnodion eraill yn nodi 'John').*



### JOHNSON, CHARLES ALFRED

CWNSTABL 28, HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE
SWYDDOG HEDFAN (BOMIWR AWYR) 135112,
SGWADRON 51, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 13 Rhagfyr 1916 • Bu farw 25 Mehefin 1943
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr oddi ar arfordir yr Iseldiroedd tra ar gyrch ar ddinas Wuppertal, yn nyffryn y Ruhr yn yr Almaen.
Wedi'i goffáu ar Gofeb y Lluoedd Awyr yn Runnymede.
*(Llun: Casgliad Heddlu De Cymru/Gwasanaeth Archif Gorllewin Morgannwg)*

### JONES, DERRICK ISAAC

CWNSTABL 72, HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG HEDFAN (LLYWIWR/BOMIWR AWYR) 120809,
UNED HYFFORDDIANT GWEITHREDOL RHIF 1, RHEOLAETH ARFORDIROL

Ganwyd 19 Hydref 1920 • Bu farw 10 Tachwedd 1942
Bu farw pan chwalodd ei awyren ar dir uchel ger Ullswater yn Ardal y Llynnoedd tra ar ymarfer hedfan yn ystod y nos.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL




### KINGLAKE, RHYS NOEL

CWNSTABL GWIRFODDOL, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
SWYDDOG PEILOT (GWEITHREDWR DI-WIFR/GYNNWR AWYR) 142909, SGWADRON 21, AWYRLU TACTEGOL

Ganwyd 25 Rhagfyr 1909 • Bu farw 22 Mehefin 1943
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr ar gyrch ar safle gynnau Almaenig ger Abbeville yng Nogledd Ffrainc.
Wedi'i gladdu yn Estyniad y Fynwent Gymunedol yn Abbeville, Ffrainc.



### LAING, THOMAS CHARLES

CWNSTABL 49, HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG HEDFAN (LLYWIWR) 135875, SGWADRON 576, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 22 Medi 1919 • Bu farw 27 Ionawr 1944
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr tra ar gyrch ar Berlin.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Heverlee, yng Ngwlad Belg.
*(Llun: Claire Jenkins-Robinson)*



### MORGAN, WALTER HENRY

CWNSTABL 42, HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG HEDFAN (BOMIWR AWYR) 134667, SGWADRON 467 (AWYRLU BRENHINOL AWSTRALIA), RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 6 Mai 1919 • Bu farw 12 Gorffennaf 1943
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr dros y Swistir a chwalodd yn yr Alpau yn y Swistir tra ar gyrch ar Turin yn yr Eidal.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Vevey (St Martin's), y Swistir.
*(Llun: Claire Jenkins-Robinson)*

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL



### PRIDMORE, WILLIAM THOMAS GEORGE

CWNSTABL 184, HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE
UWCH-AWYRLUYDDWR 1412176, GORSAF HEDFAN MORWROL YR UDA, GROSSE ILE, MICHIGAN

Ganwyd 9 Chwefror 1918 • Bu farw 23 Medi 1942
Bu farw pan fu'r awyren roedd yn ei hedfan fel peilot mewn gwrthdrawiad ag awyren arall a chwalu ar hediad hyfforddi.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Flatrock Oak Ridge, Michigan, UDA.
*(Llun: Casgliad Heddlu De Cymru/Gwasanaeth Archif Gorllewin Morgannwg)*



### ROBERTS, EVAN EPHRAIM EDWARD

CWNSTABL 516, CWNSTABLIAETH MORGANNWG
AWYR-RINGYLL (LLYWIWR) 1422157, SGWADRON 156, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 4 Tachwedd 1918 • Bu farw 22 Mai 1944
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr ger Molenaarsgraaf yn yr Iseldiroedd, tra ar gyrch ar Duisburg yn y Ruhr, yr Almaen.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Eglwys Brotestannaidd Molenaarsgraaf.



### SAYCE, STANLEY WALTER

CWNSTABL 53, HEDDLU DINAS CAERDYDD
AWYR-RINGYLL (LLYWIWR) 1318013, SGWADRON 207, RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 15 Ebrill 1919 • Bu farw 6 Ebrill 1944
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr ger Toulouse tra ar gyrch ar ffatri awyrennau yno.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Gymunedol Toulouse (La Fourguette).
*(Llun: Claire Jenkins-Robinson)*

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR AWYRLU BRENHINOL



### THORNE, CHRISTOPHER JAMES

CWNSTABL 29 A 95, HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG PEILOT (BOMIWR AWYR) 186295, SGWADRON 101,
RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 28 Rhagfyr 1914 • Bu farw 11 Hydref 1944
Bu farw pan chwalodd ei awyren ger y ffin rhwng yr Iseldiroedd a Gwlad Belg yn ystod cyrch ar fagnelfa gynnau yn Fort Frederik Breskens yn yr Iseldiroedd.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Canada, Adegem, ger Bruges yng Ngwlad Belg.
*(Llun: Casgliad Heddlu De Cymru/Archifau Morgannwg)*




### YOUNG, WILLIAM

CWNSTABL 63, HEDDLU DINAS CAERDYDD
SWYDDOG HEDFAN (LLYWIWR) 163591, SGWADRON 15,
RHEOLAETH AWYRENNAU BOMIO

Ganwyd 24 Ionawr 1915 • Bu farw 5 Ionawr 1945
Bu farw pan gafodd ei awyren ei saethu i lawr tra ar gyrch ar Ludwigshafen yn yr Almaen.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Rhyfel Rheinberg, yr Almaen.

# RHESTR GWRONIAID 1939 1945

## YR HEDDLU




### BEYNON, JOHN

CWNSTABL GWIRFODDOL 335, CWNSTABLIAETH MORGANNWG

Ganwyd 7 Ebrill 1896 • Bu farw 22 Ionawr 1944
Bu farw ar ddyletswydd pan wnaeth ffrwydryn morol yr oedd uned gwaredu bomiau'r Llynges Frenhinol yn ymdrin ag ef, ffrwydro ar y traeth yn Llangynydd, Gŵyr.
Wedi'i gladdu yn Eglwys Sant Cenydd, Llangynydd.



### DAVIES, WILLIAM GEORGE

CWNSTABL RHYFEL WRTH GEFN 159, CWNSTABLIAETH MORGANNWG

Ganwyd 21 Mehefin 1903 • Bu farw 29 Ebrill 1941
Bu farw ar ddyletswydd o ganlyniad i'r Almaenwyr bomio Cwmparc, y Rhondda.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Trealaw, y Rhondda.
*(Llun: Casgliad Heddlu De Cymru/Archifau Morgannwg)*




### DAVIS, HARRY

AROLYGYDD GWIRFODDOL, HEDDLU DINAS CAERDYDD

Ganwyd 1 Mai 1886 • Bu farw 26 Chwefror 1941
Bu farw yn 137 Lake Road West, Caerdydd, pan ar ddyletswydd yn ystod cyrch awyr Amlaenig.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Cathays, Caerdydd.



### FLITTER, WILLIAM BOLTON

RHINGYLL 37, HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE

Ganwyd 4 Medi 1894 • Bu farw 21 Chwefror 1941
Bu farw ar ddyletswydd yn Stryd Orchard, Abertawe, o ganlyniad i gyrch awyr Almaenig.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Mynyddbach, Abertawe.
*(Llun: Casgliad Heddlu De Cymru/Gwasanaeth Archif Gorllewin Morgannwg)*

# RHESTR GWRONIAID 1939 – 1945

## YR HEDDLU




### HIGGS, CLIFFORD STANLEY

CWNSTABL GWIRFODDOL 799, CWNSTABLIAETH MORGANNWG

Ganwyd 10 Tachwedd 1908 • Bu farw 29 Ebrill 1941
Bu farw ar ddyletswydd o ganlyniad i’r Almaenwyr bomio Cwmparc, y Rhondda.
Wedi'i gladdu ym Mynwent Treorci, y Rhondda.




### INGLIS, EDGAR GEORGE

CWNSTABL GWIRFODDOL, HEDDLU DINAS CAERDYDD

Ganwyd 23 Mehefin 1901 • Bu farw 2 Ionawr 1941
Bu farw yn 37 Glamorgan Street, Treganna, Caerdydd o ganlyniad i gyrch awyr Almaenig. Bu farw ei wraig, Beatrice Annie, a'i ferch Jacqueline, a oedd yn ddwy oed, hefyd.
Claddwyd y tri ohonynt ym Mynwent Gorllewin Caerdydd (Trelái).



### JENKS, JACK HAROLD

CWNSTABL 161, HEDDLU BWRDEISTREF ABERTAWE

Ganwyd 9 Chwefror 1916 • Bu farw 1 Medi 1940
Bu farw ar ddyletswydd ar gornel Stryd yr Undeb a Stryd y Parc, Abertawe, o ganlyniad i gyrch awyr Almaenig.
Wedi'i gladdu yn Eglwys San Pedr, Y Cocyd, Abertawe.



### SALISBURY, IVOR JAMES SCOTT

CWNSTABL GWIRFODDOL, HEDDLU DINAS CAERDYDD

Ganwyd 19 Ionawr 1894 • Bu farw 28 Awst 1942
Bu farw o ganlyniad i'r anafiadau a gafodd yng Ngorsaf Tramiau'r Rhath, Caerdydd yn ystod cyrch awyr Amlaenig.
*(Nodyn: Ni fu'n bosib cofnodi'r safle lle cafodd ei gladdu).*
*(Llun: Ancestry)*





*Gwasanaeth y Cofio, Heddlu De Cymru, 11 Tachwedd 2024*




*Bedd Cwnstabl Rhyfel Wrth Gefn 57 William Vincent Jones o Gwnstabliaeth Morgannwg ym Mynwent Rhyfel Bayeux, Normandi*

---

2528-24 Wedi'i ddylunio a'i argraffu gan Adran Argraffu Heddlu De Cymru

# HEDDLUOEDD DE CYMRU A'R AIL RYFEL BYD

# RHESTR GWRONIAID 1939 – 1945




OEDI • MYFYRIO • COFIO